# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 02/06/25 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 03/06/25 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 10/06/25 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Paul Rowlinson
Aelod Cabinet Tai ac Eiddo

**PWNC - Pryniant 6 Griffin Terrace, Penrhyndeudraeth**

**PENDERFYNIAD**

I brynu'r eiddo adnabyddir fel 6 Griffin Terrace, Penrhyndeudraeth ar gyfer cyfarch gofyn yr Adran Plant, a hynny ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

## TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cyng. Paul Rowlinson |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Efan Thomas MRICS<br>Uwch Syrfewr Stadau |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 2 Mehefin 2025 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | P. B. Ro |

**Pwnc :**

Pryniant 6 Griffin Terrace, Penrhyndeudraeth

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

I brynu ‘r eiddo adnabyddir fel 6 Griffin Terrace, Penrhyndeudraeth ar gyfer cyfarch gofyn yr Adran Plant, a hynny ar delerau ac amodau i’w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Galluogi’r Adran Plant i wireddu darpariaeth ymweliadau dan oruchwyliaeth yn unol a’r flaenoriaeth. Mae gofyn i Aelod Cabinet Tai ac Eiddo gymeradwyo’r pryniant yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor dyddiedig Mai 2015.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Pwrpas prynu'r eiddo hwn yw fel y gellir ei ddefnyddio fel lleoliad ar gyfer ymweliadau dan oruchwyliaeth.

Ymweliadau dan oruchwyliaeth yw pan fydd plentyn yn treulio amser gyda rhywun sy'n agos iddo ef/hi nad ydynt yn byw gydag (fel arfer rhiant neu aelod arall o'r teulu). Mae yna lawer o resymau pam y gallai gweithwyr cymdeithasol feddwl y dylid goruchwylio cyswllt, ond y nod pennaf yw sicrhau fod y plentyn yn ddiogel, a bod y cyswllt er eu budd. Mae'n rhaid i'r gweithiwr cymdeithasol neu'r llys wneud yn siŵr nad yw'r person sydd â chysylltiad yn gwneud unrhyw beth a allai niweidio neu gynhyrfu'r plentyn.

Mae ymweliadau dan oruchwyliaeth fel arfer yn digwydd mewn lleoliad niwtral, a dyma fydd y tŷ hwn yn ei gynnig a hynny am flynyddoedd i ddod.

Mae 6 Griffin Terrace, Penrhyndeudraeth, wedi ei adnabod fel eiddo addas ar gyfer y pwrpas yma gan ystyried ffactorau megis ei leoliad, maint a gosodiad.

Fel trefniant interim, bydd y pryniant i gael ei ariannu o raglen gyfalaf yr Adran Plant, ac mae cadarnhad wedi'i dderbyn gan Llywodraeth Cymru y bydd costau'r pryniant i gael ei ad-dalu o gronfa Tai Gyda Gofal. Mae ymrwymiad hefyd wedi ei dderbyn gan Llywodraeth Cymru i gyfarch y costau addasu o'r gronfa hono.

Ar ôl ymgynghori gyda'r awdurdod cynllunio nid oes angen i'r Cyngor wneud cais am newid defnydd yn yr achos yma. Nid oes unrhyw fwriad i dalu mwy na gwerth y farchnad am yr eiddo.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Dim.

**Prif Swyddog Cyllid – Dewi Morgan – "**Rwyf yn fodlon fod ffynhonnell ariannu yn ei le ar gyfer y pryniant yma. Nid oes gennyf felly wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir."

**Swyddog Monitro – Iwan Evans** – "Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb"

**Aelod/au Lleol –**

**Cynghorydd Meryl Roberts** – "hapus i gefnogi hwn,a fydd yn le da ac ei fod yn Meirionnydd hefyd"